

CEFNOGI CYNNYDD
DISGYBLION: DADANSODDIAD
MANWL O DDATBLYGIAD
CYFANNOL UN PLENTYN, GAN
GYFIAWNHAU'R CAMAU.

Ffion Hemmings

Cynnwys

Cyflwyniad.....	2
Casglu Data	2
Dadansoddiad o'r dysgwyr	4
Sgiliau Mathemateg	4
Sgiliau Iaith	5
Datblygiad Lles a Chyfarthrebu	6
Datblygiad Corfforol	7
Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd.....	8
Y Ffordd Ymlaen	8
Strategaethau - Datblygu Hyder	8
Dol "Persona"	9
Canmol.....	10
Cyfrangiad Rhieni	10
Ffurio Llythrennau a Rhifau	10
Casgliad	11
Bibliography	12
Atodiadau.....	14
Atodiad 1	14
Atodiad 2	15
Atodiad 2	16
Atodiad 3	17
Atodiad 4	18
Atodiad 5	19
Atodiad 6	20

Cyflwyniad

Cynhaliwyd yr ymchwiliad mewn ysgol gynradd, wedi'i lleoli yn Ne Cymru ac yn cael ei chynnal gan yr awdurdod lleol. Cyfeiriaf at yr ysgol lle'r oeddwn ar leoliad fel 'Ysgol X' er mwyn cynnal cyfrinachedd ac er mwyn cydymffurfio â chanllawiau BERA (BERA 2018).

Yn ôl adroddiad ESTYN (2017) mae 106 o blant yn mynychu'r ysgol lle mae pedwar dosbarth oedran cymysg. Y mae 6% o'r plant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd yn llai na'r ac mae 27% o'r ysgol ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Cymraeg yw iaith yr ysgol, ac mae 37% o'r plant yn dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yw iaith gynta ar yr aelwyd. Yn yr aseiniad hwn, byddaf yn ymchwilio datblygiad plentyn yn fy nosbarth ar fy lleoliad presennol. Er mwyn ymchwilio datblygiad y plentyn, byddaf yn casglu nifer o wahanol fathau o ddata, ac yna byddaf yn eu dadansoddi ac yn dyfeisio ffordd ymlaen ar gyfer y plentyn penodol hwnnw, wrth ystyried cryfderau a gwendidau'r plentyn. Ar ôl trafod gyda fy mentor dosbarth, y plentyn rwyf wedi ei ddewis i seilio fy nghynllun cynnydd arno yw bachgen chwe mlwydd oed ym mlwyddyn 1.

Casglu Data

Er mwyn casglu data wrth y plentyn, penderfynais ddefnyddio'r dull Mosäig. Cafodd y dull Mosäig ei ddatblygu mewn ysgol gynradd yn Llundain yn 1999, ac wedi cael ei ddatblygu yn bellach gan Clark a Moss (2001). Mae'r dull Mosäig yn dibynnu ar y plant yn cael amser a'r cyfle i fynegi eu hunain mewn gwahanol ffyrdd. Mae hyn yn cyfeirio at y 'Canrif o leithoedd' (Malaguzzi, 1996) ble mae plant yn archwilio a phortreadu eu profiadau. Mae hyn yn cynnwys camu nôl a gadael y plentyn i arwain yr ymchwiliad. O fewn y dull Mosäig mae tri cham. Y mae cam un yn cynnwys casglu gwybodaeth wrth y plentyn, ac wedyn mae'r oedolyn a'r plentyn yn ei asesu. Yng nghanol dau, mae'r plentyn a'r oedolyn yn trafod y gwaith, ac yn dod i ganlyniad amdano'r gwaith. Mae'r cam hwn yn cynnwys mewnbwn gan yr athrawes, y plentyn, a phan fo'n bosibl, teulu'r plant. Yn y trydydd cam, mae'r athrawes a'r disgybl yn trafod beth sydd yn mynd i aros yr rhun peth a beth sydd yn mynd i newid. Y cam cyntaf a gymerais wrth gasglu data oedd dod i adnabod y plentyn. Roedd yn bwysig fy mod yn trafod ei gryfderau a'i wendidau drwy ofyn iddo beth yr oedd yn hoffi ei wneud ac nad oedd yn hoffi ei wneud yn yr ysgol. O fewn y dull Mosäig, mae hyn yn dod o dan cam 1, a chaiff ei gefnogi gan Langsted (1994:28) gan ei fod yn dweud "*Children are experts in their own lives*".

Er mwyn casglu data, gyda'r dull Mosäig mewn golwg, rwyf wedi penderfynu arsylwi ystod o wersi, casglu a dadansoddi gwaith y mae'r plentyn wedi'i gwblhau yn seiliedig ar fathemateg, a chael cyfweiliadau lled-strwythuredig gyda'r plentyn er mwyn canfod beth mae'n ei feddwl sy'n gweithio iddo. Byddaf yn canolbwyntio ar y gwaith mae'r plant wedi gwneud o fewn y meysydd o fathemateg, sgiliau iaith, lles, dealltwriaeth o'r byd a datblygiad corfforol.

Gan fy mod yn gallu ymgyswngiwrddo â'r plant yn ystod yr wythnos cyn i mi fod yn addysgu, roedd hyn wedi rhoi cyfle i mi arsylwi'r plentyn, tra'r oedd yn cael gwers gyda'r athrawes ddosbarth. Cefnogir Greig a Taylor (1999) gyda thechneg yma o arsylwi er ei bod yn arbennig o ddefnyddiol wrth wneud ymchwil gyda phlant ifanc, oherwydd allai plant ifanc ei gweld hi'n anodd i gyfathrebu mewn unrhyw ffordd arall. Aiff Greig a Taylor (1999) ymlaen i ddweud, er bod arsylwi yn ddull hynod ddefnyddiol o ymchwilio i blant, y byddai cael dieithryn yn yr ystafell ddosbarth yn cael dylanwad ar sut y byddai'r plentyn yn ymddwyn.

Dull arall o gasglu data yr wyf wedi penderfynu ei ddefnyddio yw cyfweiliad lled-strwythuredig. Mae wedi bod yn gyffredin i ymchwilwyr osgoi cyfweld plant o dan saith mlwydd oed gan nad ydynt yn cael eu hystyried yn ymgeiswyr dilys, oherwydd theori Piagets (1977) (am oedran meddwl 'concrit' plentyn (Hill, 1997)). Fodd bynnag, mae ymchwilwyr eraill yn herio'r syniad hwn, gan nad yw'r broblem gydag oedran y plentyn ond gyda thechnegau'r cyfweiliad, a bod llawer o enghreifftiau da o astudiaethau yn ymwneud â chyfweld plentyn ifanc yn dod i'r amlwg (Lewis, 2002). Dull ymchwil arall yr wyf wedi penderfynu ei ddefnyddio yw casglu gwaith y plentyn i'w ddadansoddi.

Er bod llawer o ymchwilwyr wedi canmol y dull Mosäig, mae rhywfaint o dystiolaeth sydd yn awgrymu bod gan y dull ei anfanteision. Mae hyn yn cynnwys y plentyn sydd eisiau plesio'r ymchwilydd drwy roi ateb iddo neu wneud rhywbeth y mae'n meddwl y mae'r ymchwilydd eisiau, ond efallai na fydd y plentyn yn ymddwyn fel y byddai fel arfer (Jennifer a Cowie 2012)

Un o'r cyfyngiadau a wynebais wrth gynnal yr ymchwil hwn oedd yr amser cyfyngedig a oedd ar gael i ddod i adnabod y plentyn a'i allu'n iawn. Treuliyd yr wythnos gyntaf yn dod i adnabod y plant a threfn yr ysgol. Fe wnaeth hyn fy ngadael gyda pethefnos lle'r oeddwn yn

gallu addysgu'r plant a chasglu data wrth y plentyn a ddewisais gyda fy mentor. Oherwydd yr amser cyfyngedig, dim ond gwybodaeth angenrheidiol am y plentyn yr oeddwn wedi'i chasglu, er enghraifft ei alluoedd academaidd, ond nid oeddwn yn gallu dysgu am ei ddiddordebau a'i hobiau tu allan o'r dosbarth drwy wybod y manylion hyn, gallwn addasu'r gwaith yr oeddwn wedi paratoi sbarduno diddordeb y plentyn.

Yn unol â chanllawiau BERA (2018) byddaf yn gwneud yn siŵr fy mod wedi cael caniatâd rhieni'r plentyn i gymryd rhan yn yr ymchwil (gwelir yn atodiad 1 lythr i'r rhieni). Byddaf hefyd yn gwneud yn siŵr nad wyf yn crybwyll enw'r plentyn o fewn fy ngwaith nac o fewn yr atodiadau. Bydd y plentyn a'r rhieni yn cael gwybod am yr ymchwil a bydd ganddynt yr opsiwn o adael yr ymchwiliad ar unrhyw adeg. Byddant hefyd yn gallu cael copi o'r canfyddiadau os y dymunant. Bydd yr holl wybodaeth a'r lluniau a geir yn ystod yr ymchwil yn cael eu cadw'n ddiogel ar gof bin a fydd yn cael ei storio'n ddiogel. Bydd y gwybodaeth yn cael ei dinistrio ar ôl i'r cynllun cynnydd gael ei gwblhau.

[Dadansoddiad o'r dysgwyr](#)

O fewn yr adran hon o'r aseiniad, byddaf yn cyflwyno'r data a gasglwyd yn ystod fy amser ar leoliad. Bydd y data hwn yn cynnwys datblygiad o sgiliau mathemateg, sgiliau iaith, datblygiad corfforol a byddwn yn edrych ar les a sgiliau cymdeithasol y plentyn. Byddaf wedyn yn myfyrio'n feirniadol ynghylch y canlyniadau ac yn edrych ar yr ymchwil sy'n ategu'r canfyddiadau, a beth mae'r canlyniadau hyn yn ei olygu mewn perthynas â'r plentyn. Bydd yr adran hon yn cael ei rhannu yn y gwahanol bynciau sydd i gael eu dadansoddi. Byddaf yn sôn am yr anawsterau a gaiff fy mhleintyn ffocws yn unol â'r model ASK, sydd yn cyfeirio at sgiliau (yn gallu gwneud beth sydd angen er mwyn dangos dealltwriaeth a rhagori) agweddau (bod y plentyn yn dangos agwedd bositif tuag at y pwnc ac yn dangos diddordeb a gwybodaeth) gyfarwydd â gwybodaeth, cysyniadau a theori o fewn y pwnc (Nottingham, 2017).

[Sgiliau Mathemateg](#)

Y thema o fewn mathemateg ar gyfer y pythefnos diwethaf oedd arian. Dangosodd y plentyn hyder o fewn y maes, ac roedd yn gallu adnabod darnau gwahanol o arian, ac roedd yn gallu cyfrifo gwahanol symiau o arian yn ei ben, yn defnyddio ceiniogau gwahanol i greu un cyfanswm o arian (Gweler yn atodiad 3 a 6 enghraifft or gwaith). Roedd yn amlwg bod mathemateg yn rhywbeth yr oedd y plentyn yn hyderus iawn ynddo. Yn ystod yr wythnos

gyntaf roeddwn yn yr ysgol, fe wnes i arsylwi gwers fathemateg lle'r oedd y plentyn yn rhagori ac yn gallu cwblhau'r gwaith yn gwbl annibynnol. Ffocws y wers oedd adio, ac unwaith yr oedd y plentyn wedi cwblhau'r dasg ffocws, roedd yn gallu gwneud ystod o heriau o amgylch yr ystafell ddosbarth, yn annibynnol ac i safon da. Un peth wnes i sylwi wrth arsylwi'r wers oedd y ffordd y ffurfiodd y plentyn y rhif 5. O fewn un or heriau yn y dosbarth, roedd rhaid i'r plant adio gwahanol gyfanswm o arian, ac yna ysgrifennu'r ateb ar bwys y cwestiwn. Sylweddolais, wrth wneud yr her yma, nad oedd y plentyn yn ffurfio ei rhifau yn gywir. O fewn y wers hon, roedd yn amlwg bod sgiliau màths pen y plentyn yn dda iawn, ond roedd yn cael trafferth yn cofnodi ei atebion yn gywir. Drwy edrych ar fframwaith y cyfnod sylfaen, mae'n amlwg bod y plentyn yn gweithio'n dda o fewn yr hyn a ddisgwylir ganddynt yn ym mlwyddyn 1, ac y gallai o bosibl ddechrau edrych ar waith mwy heriol, neu waith blwyddyn 2. Ar ôl cael sgwrs gyda'r plentyn, roedd yn amlwg i weld bod mathemateg a rhifedd yn faes roedd e'n mwynhau yn fawr iawn. Dywedodd y plentyn ei fod yn dewis gwneud gweithgareddau mathemateg ymarferol, ac nid ysgrifennu yn ei lyfr rhifedd yn unig. Oherwydd yr amser byr a gefais ar leoliad, nid oedd digon o amser i edrych i mewn i'r datganiad hwn, a gweld y gwahaniaeth rhwng y gwaith mathemateg ymarferol yr oedd y plentyn yn ei wneud a'r gwaith a oedd yn golygu ysgrifennu yn ei lyfr rhifedd. Wrth i ni gyfeirio sgiliau mathemateg y plentyn i'r model ASK, gallwn weld bod y plentyn yn dangos gwybodaeth dda am y pwnc, ac mae ei agwedd tuag at y pwnc yn bositif. Er mwyn i'r plentyn wneud cynnydd yn y maes, rhaid datblygu ei sgiliau ffurfio rhifau (Nottingham, 2017).

[Sgiliau iaith](#)

Er mwyn dadansoddi sgiliau iaith y plentyn, casglais samplau o'r gwaith y mae'r plentyn wedi'i wneud gyda mi yn ystod y pythefnos diwethaf ac rwyf wedi cymharu hynny â gwaith y bûm yn ei weld yn ei wneud gyda'i athro dosbarth. Pan oeddwn yn arsylwi'r plentyn yn yr wythnos gyntaf o leoliad, un peth sylweddolais oedd angen gweithio arno oedd gadael 'bwlch bys' rhwng pob gair pan roedd y plentyn yn gweithio'n annibynnol. Ar ôl i'r athrawes cael sgwrs gyda'r plentyn ynghylch beth roedd wedi mynd o le wrth iddo fe weithio, roedd y plentyn yn gallu mynd ati i wneud drafft arall o'r gwaith yn cynnwys y 'bylchau bys' rhwng pob gair. Wrth i mi ddechrau addysgu'r dosbarth, roedd y broblem hon fel petai'n mynd yn llai ac yn llai o broblem i'r plentyn. Gellir gweld enghraifft o rai mannau ble roedd y plentyn yn parhau i wneud ambell i gamgymeriad yn ei waith yn cynnwys y 'bwlch bys'. Mae'r

plentyn wedi gwneud cynnydd pendant yn ystod y tair wythnos olaf yn yr agwedd hon ar ei waith ysgrifenedig. Er mwyn i'r plentyn wneud cynnydd pellach yn ei waith ysgrifenedig, mae angen iddo wella ei sillafu a'r ffordd y mae'n ffurfio ei lythrennau. Mae'n amlwg o'r enghreifftiau o waith ysgrifenedig yn yr atodiadau mai dyma'r ardaloedd ble mae angen i'r plentyn wella.

Agwedd arall o sgiliau iaith ble gall y plentyn wneud cynnydd yw yn ei iaith lafar. Yn ystod tasg lle'r oedd disgwyl i'r plant ddilyn cyfarwyddiadau, nid oedd y plentyn ffocws yn gallu dilyn ystod eang o gyfarwyddiadau a chofio beth oedd y cyfarwyddyd nesaf. Roedd rhaid iddo ddod yn ôl a gofyn i mi ddarllen y cyfarwyddyd nesaf bob tro, er mwyn cwblhau y dasg. Wrth edrych ar y fframwaith, gallwn weld ym mlwyddyn 1, bod disgwyliad ar blant i ddilyn set o gyfarwyddiadau cymhleth. Mae'n ymddangos bod fy mhlentyn ffocws yn gweithio o fewn ystod 'Derbyn' yn y fframwaith, gan ei fod yn ei gweld hi'n anodd dilyn cyfarwyddiadau olynol. Gallai hyn ddangos bod angen ymyrraeth ar y plentyn i'w helpu gyda'i gof, neu fod angen iddo ddatblygu ei hyder, fel nad oes angen iddo gael ei ailgysegru'n gyson o'r hyn sydd angen iddo ei wneud nesaf.

Un maes y mae'r plentyn yn ardderchog ynddo yw ei sgiliau darllen. Mae'n gallu darllen llyfrau'n rhugl ac yn hyderus ac mae'n ymddangos ei fod yn deall beth yw hanes y stori. Pan fydd y plentyn yn cael amser rhydd yn yr ysgol, neu yn ystod chwarae gwlyb, bydd y plentyn yn cael ei weld yn aml yn y gornel ddarllen tra bydd y plant eraill yn gwylio 'Cyw' ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol.

Yn unol â'r model ASK (Nottingham 2017) credaf fod y plentyn yma yn dangos gwendid o fewn yr elfen 'gwybodaeth' a 'sgiliau'. Y mae ei agwedd tuag at y gwaith yn rhagorol, ac mae'n dangos diddordeb i wella ei sgiliau a'i wybodaeth. Efallai bod y plentyn yn ymwybodol o beth sydd angen gwneud, ond mae ei hyder yn ei ddal yn ôl rhag gwneud cynnydd pellach.

[Datblygiad Lles a Chyfarthrebu](#)

O fewn yr ystafell ddosbarth a'r gwersi, mae'r plentyn yn gallu cyfathrebu â'i gyfoedion ar lefel priodol. Mae'n gallu mynegi ei hun os nad yw'n deall tasg ac mae'n ymddangos ei fod yn hapus ynddo'i hun tra yn yr ysgol. Mae rhai adegau, tra fy mod ar ddyletswydd ar yr iard, lle mae'r plentyn wedi cael ei adael i chwarae ar ei ben ei hun, a heb geisio cymryd rhan

mewn gemau a gweithgareddau mae'r plant eraill yn cymryd rhan ynddynt. Os mae'r plentyn yn cael ei roi mewn grŵp o blant lle mae gêm neu weithgaredd penodol wedi'i sefydlu, mae'n gallu cyfathrebu'n hapus a chymryd rhan gyda'r plant eraill. Credaf fod hyn yn enghraifft arall lle y mae'r plentyn yn dangos diffyg hyder. Roedd yn amlwg o gael sgwrs â'r plentyn ei fod yn teimlo nad oes ganddo ffrindiau yn y dosbarth, ac mae'n teimlo nad yw'r plant eraill yn y dosbarth yn ei hoffi. Dywedodd nad oedd yn mwynhau'r un gweithgareddau y mae'r bechgyn eraill yn y dosbarth yn cymryd rhan ynddynt ac y byddai'n well ganddo wneud rhywbeth mwy creadigol, fel arlunio neu baentio yn ystod amser chwarae. Wrth ystyried Model ASK Nottingham (2017) mae'n amlwg bod y plentyn yn gwybod beth maen nhw eisiau gwneud yn ystod amser chwarae, ac amser rhydd, o'n dydu'r adnoddau ddim yna ar yr iard iddo fe wneud. Hefyd, efallai bod angen i'r plentyn weithio ar ei agwedd tuag at chwarae gyda'r plant arall yn y dosbarth. Tra ar ddyletswydd amser chwarae, sylwais nad ydy'r plentyn ddim yn gwneud ymdrech i ymuno gyda'r plant arall, ac oherwydd hynna mae'n naill ai chwarae a gwneud rhyw weithgaredd gyda fi neu oedolyn arall, neu yn chwarae wrth ei hunan. Gall hyn hefyd, fel rwyf wedi sôn, effeithio ar hyder y plentyn.

[Datblygiad Corfforol](#)

Nod y gwersi addysg gorfforol oedd gwella sgiliau trafod pêl y plant. O ganlyniad i'r amserlen a gawsom gyda'r plentyn yr ydym yn ymchwilio iddo, ychydig iawn oedd yn mynd ymlaen o ran datblygiad corfforol y plant. Gan mai dim ond un sesiwn o addysg gorfforol sydd yn yr wythnos, gadawodd hyn ychydig llai na dwy awr i gasglu data. O'r hyn y gallwn ei weld yn ystod y sesiynau hynny, yr oedd y plentyn yn cael ei hoelio i gymryd rhan yn y gemau a oedd yn golygu trin peli. Yr argraff a gefais i o arsylwi ar ei ymddygiad oedd ei fod yn nerfus wrth falu peli ac nad oedd am gymryd rhan yn y gêm dal ar ddiwedd y sesiwn. Ar ddiwedd y sesiwn, pan oedd y plant eraill yn newid yn ôl i'w gwisg ysgol, cefais sgwrs gyda'r plentyn. Dywedodd wrthyf nad oedd am edrych yn wirion o flaen y plant eraill drwy ollwng y bêl. Credaf fod y plentyn hwn yn ofn methu, â flaen ei gyfoedion ac nad oes ganddo ddigon o hyder ynddo'i hun i roi cynnig ar bethau newydd. O fewn model ASK Nottingham (2017) roedd gan y plentyn gyda ddigon o wybodaeth i wybod beth oedd angen iddo fe wneud, ond doedd yr agwedd a sgiliau roedd angen i lwyddo ddim yna.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

O fewn ein gwersi Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd gwersi, ein thema oedd St Lucia ac i ddeall o ble ddaeth bananas a'u taith i Gymru. Roedd yn amlwg fod hwn yn bwnc yr oedd y plentyn yn ei fwynhau yn fawr iawn, ac wedi gwneud peth gwaith blaenorol arno gan ei fod yn gallu ateb y rhan fwyaf o gwestiynau am y wlad a sut mae'r fanana yn dod i Gymru.

Roedd y gwaith yr oedd angen ei gwblhau yn cynnwys adnabod baner gwlad St Lucia, lliwio yn y lliwiau priodol, a labelu. Roedd y wers yn bleserus iawn i fy mhlentyn ffocws. Mewn perthynas â'r model ASK (Nottingham 2017), roedd ei wybodaeth am y wers a'r agwedd tuag at y wers yn wych. Roedd yn awyddus i ddysgu mwy ac roedd yn gallu cynnig ffeithiau manwl am y wlad. Roedd hefyd yn ddigon medrus i allu dewis y faner a'r wlad gywir. Yr unig faes o fewn y wers hon yr oedd angen ei wella oedd ei ysgrifennu, a ffurfio llythrennau, ond roedd yn gallu defnyddio priflythyren yn gywir pan oedd angen.

Y Ffordd Ymlaen

Drwy gymryd yr holl ddata, y cryfderau a'r gwendidau y mae'r plentyn hwn yn eu cyflwyno i ystyriaeth, rwyf wedi penderfynu, er mwyn i'r plentyn wneud cynnyddyn ei waith yn yr holl wahanol feysydd dysgu, fod angen iddo weithio ar ei hunanhyder. Rheswm arall pam rydw i wedi penderfynu canolbwyntio ar ddatblygu'r hunan-ffydd yw oherwydd yn y cwricwlwm diwygiedig i Gymru, mae un o'r pedwar diben yn canolbwyntio ar blant bod yn *“yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas”* (Donaldson, 2015) Byddaf hefyd yn edrych ar wahanol strategaethau a fyddai'n ei helpu i ddatblygu ei ffurfiau o lythrennau a sillafu geiriau allweddol.

Strategaethau - Datblygu Hyder

Er mwyn gwella gwaith y plentyn ym mhob ardal, yr elfen gyntaf y mae angen canolbwyntio arno yw ei ddiffyg hyder. Mae Dowling (2010:27) yn cefnogi hyn oherwydd mae'n dweud *“A child who has sound self-esteem is well placed to learn”*. Mae cyfnod sylfaen y blynyddoedd cynnar hefyd yn pwysleisio bod yn rhaid i raglenni addysgol gynnwys mae'r cyfnod sylfaen blynyddoedd cynnar hefyd yn pwysleisio bod rhaid i raglenni addysgol gynnwys gweithgareddau a phrofiadau sy'n annog pobl i gael hyder yn eu gallu eu hunain, er mwyn i'r plant cael hyder yn eu gallu eu hunain.

Dadleuodd Bruner (2013) y gall oedolion gefnogi datblygiad emosiynol a chymdeithasol plant drwy gymryd rhan weithredol ynddynt. Y term a ddefnyddiodd i ddisgrifio hyn oedd

sgaffaldio. Pwysleisiodd Vygotsky (1987) bwysigrwydd rhyngweithio cymdeithasol mewn datblygiad plentyn, ond awgrymodd hefyd fod gan blentyn botensial y gall oedolyn sensitif ei ddatgloi. Mae hyn yn cyfeirio at yr hyn y gall y plentyn ei wneud gyda chymorth athro, a'r hyn y gall ei wneud yn annibynnol - y Parth Datblygiad Procsimol (Riddall-Leech, 2008). Roedd Vygotsky (1987) hefyd yn cefnogi dysgu cymdeithasol er mwyn adeiladu ar hyder plentyn- dadleuodd y byddai'r hyn y mae plentyn yn dysgu ei wneud gyda phlant eraill, yn bethau y gellid eu gwneud ar eu pennau eu hunain yn y dyfodol (Dowling, 2010). Mae'r ymchwil yn awgrymu pan fydd plentyn yn gweithio mewn grŵp gyda phlant eraill, ei fod yn adeiladu ar eu hyder. Oherwydd bod fy mhleintyn ffocws braidd byth yn dewis gweithio a chwarae gyda phlant eraill o ddewis, gallai hyn fod yn rheswm ymarferol pam mae'r plentyn hwn yn ddihyder.

Oherwydd bod ymchwil i gefnogi buddion gweithio mewn grŵp, yn y dosbarth, rwyf wedi penderfynu gwneud llawer o weithgareddau sydd yn cynnwys gwaith grŵp yn y ddarpariaeth barhaus. Byddaf yn gwneud yn siŵr bod pob plentyn yn y dosbarth yn ymwybodol bod rhaid gweithio mewn grŵp er mwyn llwyddo yn yr her, a bydd rhaid i mi lofnodi bod y plentyn wedi cwblhau'r gweithgaredd er mwyn iddyn nhw symud ymlaen i'r her nesaf. Byddaf hefyd yn gwneud yn siŵr bod cyfle i'r plant weithio ar sgiliau sylfaenol, er enghraifft, ffurfio llythrennau a rhifau mewn rhai ardaloedd, yn ychwanegol a'i thema sydd yn ddisgwyliedig or dosbarth pob wythnos.

Dol "Persona"

Er mwyn siarad â'r plant fel dosbarth am bwysigrwydd cynnwys pawb pan fyddan nhw'n chwarae, a hyrwyddo awyrgylch gynhwysol yn y dosbarth, byddaf yn cyflwyno dol "persona". Pwrpas y ddol yw y bydd 'ef' neu 'hi' yn teimlo ei fod wedi cael ei wahardd gan ei ffrindiau, a bydd gweddi y dosbarth yn cael rhoi eu mewnbwn ar pam ei bod hi'n bwysig cynnwys pawb a helpu pan fydd rhywun yn ffeindio rhywbeth yn anodd.

Creda Dowling (2010) bod rhaid i blant cael profiad o wahanol fyrdd o emosiwn, cyn iddyn nhw allu dechrau eu deall nhw. Wrth ddefnyddio dol "persona", darganfuwyd Denham (2007) bod plant sydd yn cael profiad o deimladau positif a negyddol wrth chwarae yn ei gweld hi'n haws i ddeall beth mae eraill yn teimlo. Wrth ddefnyddio dol "persona", mae'r athrawes yn gallu rhoi sefyllfa i'r plant, er enghraifft, bod plant arall ddim yn chwarae gydag ef neu hi amser chwarae a dydy ddol ddim yn deall sut i ymuno mewn gyda gemau arall. Gall

yr athrawes neu athro wedyn gofyn i'r plant beth maen nhw yn meddwl amdan y sefyllfa. Mantais arall o wneud hyn yw bod fy mhlentyn ffocws ddim yn mynd i deimlo bod y drafodaeth amdanyn nhw.

Canmol

Ffordd arall o ddatblygu hyder y plentyn yw trwy ganmoliaeth, ac adnabod pryd maen nhw wedi gwneud gwaith da. Fodd bynnag, wrth ganmol plentyn, rhaid bod yn ofalus bod y ganmoliaeth yn cael ei rhoi yn y man cywir er mwyn cael effaith positif ar y plentyn. Cytuna Lawrence (2004:22) efo hyn ac mae'n dweud *'whilst there is a place for genuine praise in self-esteem enhancement, this has to be realistic praise, otherwise the child will be in danger of developing a faulty self - image'*. Mae Dowling (2010) yn mynd ymlaen i ddweud bod canmol yn arbennig o ddefnyddiol gyda phlant nad oes ganddynt lawer o gymhelliant, neu nad oes ganddynt hyder ynddynt eu hunain.

Cyfrangiad Rhieni

Er mwyn i'r strategaethau hyn weithio, mae'n bwysig bod rhieni fy mhlentyn ffocws yn ymwybodol o ba heriau mae eu plentyn yn eu wynebu yn yr ysgol er mwyn iddyn nhw gefnogi'r plentyn a'r darpariaethau mae'r athrawon yn eu rhoi ar waith. Mae Estyn yn cefnogi cyfrangiad rhieni yn yr ysgol fel y dywedant mewn adroddiad, *"Parents have an important stake in the education of their children and play a significant part in supporting their children's learning. Effective parental involvement sets aspirations and shapes the child's self-concept as a learner."* (ESTYN 2009:1).

Ffurio Llythrennau a Rhifau

Wrth i hyder y plentyn gynyddu, y gobaith yw y bydd yn gwneud gwell cynnydd mewn ardaloedd eraill. Un o'r meysydd yr oedd angen ei wella oedd ei ffurfiant o rifau a llythrennau. Mae tueddiad ganddo i'w hysgrifennu y ffordd anghywir. Gallwn weld enghraifft o hyn yn atodiad 4. Yn ogystal â gwella hyder y plentyn, gallwn hefyd rhoi ardaloedd o gwmpas y dosbarth, ac yn yr ardal tu allan, ble mae'r plentyn yn gallu datblygu ei sgiliau o ffurfio rhifau a llythrennau. Byddwn yn rhoi un ardal tu allan ac un ardal tu fewn, i wneud yn siŵr bod gan y plentyn y cyfle i wella eu sgiliau trwy'r amser pan maen nhw yn gwneud darpariaeth barhaus. Byddaf hefyd yn gwneud yn siŵr fy mod yn rhoi heriau wythnosol i'r plentyn, sydd yn cynnwys ffurfio eu llythrennau a rhifau. Pob wythnos bydd angen iddo fe ganolbwyntio ar y llythrennau a rhifau y mae'n cael i weithio arno, ac yn

symud ymlaen i rai newydd pob wythnos. Y gobaith yw ei fod yn dechrau adeiladu ar ei sgiliau ac yn dechrau gwneud cynnydd pob wythnos.

Er mwyn cefnogi ei ddysgu bob wythnos, bydd y plentyn ffocws yn cael cerdyn gyda'r llythyren neu'r rhif arno a bydd e wedyn yn gallu ei ddefnyddio i'w atgoffa o'r llythyren neu rif wrth gwblhau ei waith. Mae hwn yn fath o sgaffaldio a modelu, damcaniaeth a ddatblygwyd gan Vygotsky (1978), ble bydd y plentyn yn adeiladu ar ei wybodaeth a'i sgiliau drwy gydol yr wythnos, a byddwn wedyn yn tynnu rhywfaint o'r cymorth i ffwrdd wrth i'w sgiliau ddatblygu.

Casgliad

I gloi, y brif elfen yr oedd angen ei gwella oedd hyder fy mhleintyn ffocws. Dywed Dowling (2010) Unwaith y byddai hyder yn gwella, byddau agweddaueraill o'i waith yn gwella hefyd (Dowling, 2010).

Y prif strategaethau a fydd yn cael eu defnyddio i wella hyder y plentyn bydd cynnwys gwaith grŵp ym mhob rhan o'r dosbarth, er mwyn gwella sgiliau cymdeithasol y plentyn. Byddwn hefyd yn cyflwyno dol persona i'r dosbarth er mwyn trafod materion sensitif a thrafod y pwysigrwydd o gynnwys pawb amser chwarae. Byddaf yn cynnwys rhieni'r plentyn yn yr ymyraethau, a byddaf hefyd yn rhoi targed iaith i'r plentyn pob wythnos.

Wrth ysgrifennu'r aseiniad hwn, rwyf wedi dysgu'r pwysigrwydd o ddatblygu hyder plentyn. Wrth i hyder y plentyn gynyddu, byddan nhw hefyd yn gwneud cynnydd mewn meysydd eraill yn yr ysgol. Byddaf yn defnyddio modelu a sgaffaldio i helpu'r plentyn wneud cynnydd, wrth roi cerdyn llythyren a rhifau i'w helpu trwy gydol yr wythnos.


Credaf fod yn bwysig bod rhieni yn ymwybodol o beth sydd yn digwydd yn yr ysgol gyda'r plentyn, fel y gallend barhau gyda'r strategaethau adref. Bydd hyn yn helpu'r plentyn i wneud cynnydd yn yr ysgol.

Credaf fod defnyddio'r dull Mosaig (Clark a Moss, 2001) wedi helpu wrth gasglu data, a bod y dull wedi fy helpu i ffocysu ar beth oedd angen casglu er mwyn gwneud cynllun cynnydd addas i'r plentyn. Roedd Model ASK Nottingham (2017) wedi fy helpu i ffocysu ar yr elfennau cywir o'r plentyn a oedd angen gwella.

Bibliography

- BERA (2018) 'ETHICAL GUIDELINES FOR EDUCATIONAL RESEARCH.' Ar gael yn: file:///Users/manonjames/Downloads/BERA-Ethical-Guidelines-for-Educational-Research_4thEdn_2018.pdf [Darllenwyd: 22 o Rhagfyr 2018].
- Bruner, J. (2003). *The process of education*. Cambridge, Mass.: Harvard University Press.
- Clark, A., & Moss, P. (2001). *Listening to children: The mosaic approach*. London National Children's Bureau: Rowntree Foundation.
- Department for Education (Dfe) (2012) *Statutory Framework for the Early Years Foundation Stage*. London: HMSO p.27
- Donaldson, G (2017) *Dyfodol Llwyddianus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*.
- Dowling, M. (2010). *Young children's personal, social and emotional development*. 3rd ed. Los Angeles [etc.]: SAGE, pp.42-45.
- ESTYN (2009) *Good Practice in Parental Involvement in Schools*. Llywodraeth Cymru. T.1
- ESTYN (2017) *Adroddiad Ysgol X*. Llywodraeth Cymru.
- Gray, C a Sean, M (2012) *Learning Theories in Childhood*. Los Angeles, [Calif.] ; London: SAGE. Print.
- Hill, M (1997). *Participatory research with children' Child and Family Social work: 2: 171-183*
- Langsted, O. (1994) *Looking at quality from the child's perspective*. In *Valuing quality in early childhood service*.i: *New approaches to defining quality*, eds. P. Moss & A. Pence, 28-42. London: Paul Chapman.
- Lewis, A (2002). 'Accessing though research interviews, the views of children with difficulties in learning, *Support for learning. T:110-116*
- Malaguzzi, L. (1996). *The hundred languages of children: Exhibition catalogue*. Reggio Emilia, Italy: Reggio Children.
- NOTTINGHAM, J. (2017). *CHALLENGING LEARNING*. THOUSAND OAKS: CORWIN SAGE.

- Piaget, J. (1977). *Epistemology and psychology of functions*. Dordrecht, Netherlands: D. Reidel Publishing Company
- Riddall-Leech, S. (2008). *How to observe children*. Oxford: Heinemann, p.93.
- Vygotsky, L (1978) *Mind in Society: Development of Higher Psychological Processes*, p. 86



Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales

Dear Parent/Guardian,

Your child's school is a partner with Yr Athrofa at the University of Wales Trinity Saint David in Carmarthen and Swansea. This school offers placements to students who are learning to be teachers.

The student-teacher in your child's class has been given the task of analysing children's learning so that he/she can consider how he/she would support pupils in making progress. As part of this, student-teachers will be observing the children's learning and asking about what things and places in the school help children learn. This is designed to inform students' own practice and support children's learning.

Any information collected would remain confidential, and both the school and the children would remain anonymous in work produced. The work undertaken would be in line with the University's ethical guidelines. If, at any time, your child does not want to share ideas, they would not be required to do so.

If you are happy for your child to contribute to the project, please complete the parental consent form below and return directly to the school as soon as possible. If you are interested in the outcome of this project or if you have any questions, please contact the University Partnership Office - partnership@uwtsd.ac.uk.

Yours faithfully,

Mathew Jones


Module lead – School Development and Pupil Progress

As Parent/Guardian of..... (pupil name),

I do / do not give consent (please delete) for my child to take part in this project.

Signed..... (Parent/Guardian).

Date 23/5/19.....



Ynglŷn ag: Aseiniad Myfyrwyr TAR Cynradd: caniatâd a chadarnhad bod gwaith wedi cael ei wneud yn yr ysgol ar gyfer yr aseiniad 'Datblygiad Ysgol a Chymnydd Disgyblion', Haf 2019.

Answyl fentor dosbarth / uwch fentor ,

Ar gyfer y model prifysgol a enwir uchod, gofynnir i hyfforddwr i nodi un dysgwr sydd yn y dosbarth lle maent wedi cael eu lleoli a, dros y cyfnod Profiad Addysgu Proffesiynol, ymchwilio i'w ddysgu yn fanol. Gallat'r dystiolaeth sydd angen ei chaelu arnynt gynnwys:

- amylwl;
- gofyn i'r dysgwr nodi manau/ pethau sy'n ei helpu ef / hi i ddysgu;
- trafod gyda'r disgybl a/ neu'r athro'r hyn sy'n helpu'r disgybl i ddysgu a sut maent yn teimlo am ddysgu;
- casglu samplau o waith a allai ddangos rhywbeth am gynnnydd a datblygiad y dysgwr.

Gofynnir iddynt ganolbwyntio ar wybodaeth, agwedd a sgiliau mewn iaith, mathemateg, lles, yn ogystal ag o leiaf dau faes arall o'r canolwam er mwyn cael darlun cyfannol o'r plentyn. Yna, gwaânt awgrymu'r camau nesaf ar gyfer y disgybl a dangos sut caiff y rhain eu cyflawni. Disgwylir i hyfforddwr fod yn annibynnol, pa bryd bynnag mae'n bosibl, wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, ac maent wedi cael canllawiso moesegol i'w dilyn (er oia bod ni'n rhagweld caiff y gwaith uchod ei wneud yn unol ag arfer arferol yr ystafell ddosbarth). Gofynnwyd i'r hyfforddwr i beidio â datgelu enwau'r dysgwr na'r ysgol yn eu haseiniadau. Gofynnir i'r myfyrwr i:

1. Ofyn am ganiatâd ar gyfer gwneud y gwaith hwn (drwy ymgynghori â'r athro dosbarth a'r dysgwr).
2. Odarparu cadarnhad bod y gwaith archwilio wedi digwydd.


Felly, byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu cadarnhau drwy lofnodi isod bod y myfyrwr wedi gofyn am ganiatâd a bod y tasgau wedi cael eu cynnal.

Atodiad 2

ENW'R MYFYRWRS/ MYFYRWRAIS (PRINTWCH OS GWELWCH YN DDA):

FRION HENNING

ENW'R YSODOL (PRINTWCH OS GWELWCH YN DDA):



ENW'R UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (PRINTWCH OS GWELWCH YN DDA):

ALISON MORRIS

ENW'R UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (LLOFNODWCH OS GWELWCH YN DDA):

A. Morgan

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, yna cysylltwch ag : Arweinydd y Rhaglen
Mathew Jones M.Jones@uwtd.ac.uk

Diolch yn fawr o flaen llaw

DYSD CWMWYS COPY WEDD I LLOFNODI YN ATODIAD YR ASENAD

Atodiad 3



Dy hi Llyn, a dda i
un dal fel colber ✓
Yn glas fel tned. ✓
Yn gyfyrn fel byc. ✓
Yn coch fel blaced ✓
Yn llwygar fel enfes ✓
Yn dach fel pyn ✓
Yn mawr fel moch ✓
Yn toim fel hail ✓
Yn blaun fel pleng ✓
An 20/5/19.



Atodiad 6

